OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 140 (Cy.12)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*28 Ionawr 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Mawrth 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(1)(a), (2), 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**), ac adran 10(1) a (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**) sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**4**)) yn cael eu diwygio fel a ganlyn:—

(a) Yn rheoliad 3(2) ar ôl y diffiniad o "cwmni" mewnosodwch—

"ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;".

(b) Yn Rhan I o Atodlen 3—

(i) mewnosodwch ar ôl paragraff 1 (1)(b)—

"(ba) os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig gan y Cyngor ei fod yn athro neu athrawes gymwysedig, gan fod y Cyngor wedi'i fodloni ar 1 Medi 2003 neu wedyn ei fod yn berson a grybwyllir ym mharagraffau 2 i 6 neu 8 ac, os yw'n berson a grybwyllir ym mharagraff 8 fod y datganiad a gyflwynwyd gan Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey yn gywir; neu";

(**1**) 1988 p.40. Diwygiwyd adran 232(6) gan adran 14 o Ddeddf Addysg 1994 a pharagraff 6 o Atodlen 3 ac Atodlen 4 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30).
(**2**) 1998 p.30.
(**3**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) O.S 1999/2817 (Cy.18) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2938(Cy.279).